




Cast 'Y Fainc',
Cwmni Licris Olsorts

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4/5
Ysgol Tal-y-bont

tud 8
Teyrngedau

tud 11
Gwartheg Duon

Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

Ddiwedd Ebrill a dechrau Mai eleni, lansiwyd gŵyl ddrama newydd sbon yng ngogledd Ceredigion er mwyn dod â nosweithiau o ddrama yn ôl i'r ardal. O gofio bod gwyliau drama bychain o'r fath wedi araf ddiflanu dros y degawd diwethaf, roedd hynny yn gryn fenter ac yn dipyn o risg i'r trefnwyr. Fe ddaeth y syniad o greu gŵyl wrth i aelodau a chynhyrchwyr rhai o gwmnïau drama'r ardal drafod pa mor brin yw cyfleoedd i berfformio

dramâu erbyn hyn. Mae unrhyw aelod o gwmni drama lleol yn medru tystio i'r hwyl arbennig ac unigryw sydd i'w gael o gyfarfod yn wythnosol gyda chriw o bobl o'r un anian, i ddysgu drama newydd. Er hynny, does dim yn well ar ôl wythnosau lawer o ymarfer, hel props a chwysu i gofio llinellau, a hynny gobeithio yn y drefn gywir na chael y wefr o berfformio ar lwyfan a diddanu cynulleidfia.

Sefydlwyd y pwyllgor dros flwyddyn yn ôl ac wedi derbyn nawdd hael gan Gronfa Eleri aed ati i drefnu gŵyl. Y bwriad o'r dechrau oedd rhoi cyfleoedd newydd i gwmnïau lleol i lwyfannu eu cynyrchiadau a rhoi cyfle yn ogystal i gynulleidfaoedd lleol gael cyfle i'w mwynhau. Fe wyddai'r pwyllgor trefnu yn fwy na neb bod cymaint o dalent actio a pherfformio i'w gael ymysg trigolion yr ardal



Cwmni'r Morlan yn perfformio Donald Bricit a Stryd y Domen

- yn arbennig felly ymysg ein pobl ifanc. Dathlu doniau lleol ydy calon yr ŵyl mewn gwirionedd, gan fachu ar y cyfle hefyd i estyn gwahoddiad i gwmnïau o tu allan i'r ardal i berfformio.

Wedi misoedd o baratoi tawel gwelwyd gwireddu'r freuddwyd a chynnal tair noson amrywiol yng ngogledd y sir, gan berfformio chwech o gynhyrchiadau gwahanol. Agorwyd yr ŵyl yn Neuadd Penrhyncoch ar 20 Ebrill gyda'r cwmnïau lleol Doli Mictiys a Licris Olsorts yn perfformio *Tu Hwnt i bob Gofid* a *A'r Maglau Wedi Torri* yng nghwmni Cwmni Drama Dinas Mawddwy fu'n cyflwyno *Pwy yw dy Gymydog*. Cyn symud wedyn i Neuadd Rhydypennau, Bow Street ar y 25 Ebrill gyda Chlwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn ymuno gyda'r ddau gwmni lleol y tro hwn

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Karren Roberts 07800 806578

Maes-y-deri: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henllys: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Bont-goch: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Tre Taliesin: Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Tre'r-ddôl: Non Griffiths (01654) 703635
Ceri Morgan

Eglwysfach/Ffwrnais: Non Griffiths (01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...

www.papurpawb.cymru

hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

CYMRAG


parhad o dud 1

Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion

i gyflwyno'r Pantomeim *Dafydd ap Gwilym ap Gwrach ap Potel*. Daeth yr ŵyl i ben yn Neuadd Goffa Ta-y-bont ar y 3 Mai, gyda'r Doli Mictiys yn perfformio unwaith yn rhagor, criw Licris Olsorts yn cyflwyno *Y Faïnc* a Chwmni Morlan a'i hanterliwt gyfoes *Donald Bricit a Stryd y Domen*.

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu ynghlwm â'r fenter newydd hon. Mae Trefnwyr yr Ŵyl yn ddiolchgar iawn i bwyllgorau a gofawyr y neuaddau pentref lleol am bob cymorth ac yn edrych ymlaen at drefnu Gŵyl 2019 erbyn hyn. Os oes gennych chi syniadau, yn gwybod am gyfleoedd noddi neu'n adnabod cwmnïau drama fyddai â diddordeb perfformio yng Ngŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion 2019 yna cofiwch gysylltu â nhw ar gwybodaeth@dramaceredigion.cymru.

Adolygiad ar dud 5



Dyddiadur

MAI

12-13 Penwythnos dathlu

Pumed pen-blwydd Cletwr

13 Bethel 10 a 5.30 Cymanfa Ganu, Morfa, Aberystwyth
Nasareth Y Gymanfa Ganu
Rehoboth Y Gymanfa Ganu

14 Cyfarfod Blynnyddol
Cyngor Cymuned Llangynfelyn

15 Cymraeg Sylfaenol yn y Gweithle (Medi James) 6.30–8 Cletwr

16 Amser Stori 14.15 – 15.00, Cletwr, Tre'r-ddôl

18 Clwb Gemau Bwrdd
Machynlleth 7.30–9.15 Cletwr

20 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu gyda Gareth William Jones

Nasareth 5 Carwyn Arthur
Rehoboth 10 Beryl Vaughan

Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyl Weddi

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid

21 Cyfarfod Blynnyddol
Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

21 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch 'Teithiau Tango' (Aled Rees)

Sefydliad y Merched Eglwysfach Taith i Blas Newydd, Sir Fôn

23 Amser Stori 2.30–3.15 Cletwr

27 Bethel 10 Geraint Evans
Nasareth Oedfâr Ofalaeth yn y Garn

Rehoboth Oedfâr Ofalaeth yn y Garn

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

Gwasanaeth Boreol

29 Cymdeithas Treftadaeth

Llangynfelyn 'Gladys Vasey, artist a arferai fyw yn Nhaliesin' 7.30 Llanfach

MEHEFIN

3 Bethel 11.15 Uno yn Nasareth

Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 5 Rhidian Griffiths

Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid

5 Sefydliad y Merched
Taliesin 'Blas ar Swydd Efrog' (Jane Guitge)

10 Bethel 2 Terry Edwards
Nasareth 5 Eifion Roberts

Rehoboth 10 Terry Edwards

Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Tro a Chlonc' 11–11.45

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5

Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30–10.30



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Mehefin fydd Delyth a Bleddyn (huws.henllan@btinternet.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Mehefin, a bydd y papur ar werth ar 8 Mehefin.

Cydymdeimlad

Trist iawn yw cofnodi bod Margaret Dunn, Marsh View, Taliesin, wedi marw'n ddiweddar yn 76 oed. Roedd Margaret a'i gŵr Nigel yn byw yn Nottingham ond byddent yn dychwelyd i Marsh View yn rheolaidd dros y blynyddoedd. Un glên a chynnes oedd Margaret ac roedd ganddi bob amser ddiddordeb mawr yn hanesion y fro. Byddwn ni'n gweld ei heisiau'n fawr. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad diffuant â Nigel, eu plant Jackie a Gareth a gweddill y teulu.

Cyfarwyddwr

Mae trigolion Bont-goch yn ymfalchio yn llwyddiant Sion Pennant, Penygro, fel cyfarwyddwr Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion. Dymuniadau gorau iddo ac i'w fab Oisín Lludd a fu'n chwarae rhan flaenllaw yn un o'r dramaau.

Diolch

Dymuna Eirlys Huws, Pantgwyn, Bont-goch, ddiolch yn gynnes iawn i'w ffrindiau a'i chymdogion am eu caredigrwydd arbennig yn dilyn ei thriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Bronglais.

Swyddi Newydd

Pob dymuniad da i Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont yn ei swydd newydd gyda chwmni cyfrifwyr i lawr yng Nghaerdydd.

Pob hwyl hefyd i Ruth Dennis, 8 Maes-y-felin, Tal-y-bont sydd newydd ddechrau fel derbynydd yn swyddfa gwasg Y Lolfa.

Ŵyr Bach Newydd

Llongyfarchiadau i Geraint a Sharon Lewis, Tre'r ddôl ar enedigaeth eu hŵyr bach Teilo yn Llangeitho. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lynwen, Cyd Arweinydd Cylch Meithrin Tal-y-bont, ac Aled James ar enedigaeth eu mab bach Jacob Elis ar 12 Ebrill - brawd i Efan a Ceidn. Mae pawb yn y Tŷ Sbri yn edrych ymlaen i weld yr un bach.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Gerald Roberts, Maes-y-deri a Karen Evans, Maes-y-deri sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar.

Pobl a Phethe




Marathon Llundain

Llongyfarchiadau mawr i Jane Bailey, Troedrhwiwseiri, Bont-goch ar ôl iddi gwblhau marathon Llundain yn llwyddiannus ar 22 Ebrill 2018. Roedd y tywydd yn boeth iawn, ac yn gwneud y dasg yn anoddach na'r disgwyl, ond roedd amser Jane ychydig dros 4 awr a hanner yn un parchus iawn dan amodau anodd. Llwyddodd hefyd i godi dros £2000 i'w helusen, Sense. Mae'n ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth.

Gellir cyfrannu o hyd ar:

<https://www.justgiving.com/fundraising/jane-bailey01>

Dathlu Pen-blwydd



Bu Ceris Williams, Penrhos, Tal-y-bont yn dathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar trwy redeg 'Ultra Marathon', St Illtyd, sy'n 50k o hyd, ar ddydd Sul 6 Mai yng nghwmni Elaine Rowlands a Holly Ann. Daeth llwyddiant i ran Ceris ag Elaine hefyd yn ras 20K, Brynkinalt ger Y Waun yn ddiweddar gyda'r ddwy yn cipio'r amseroedd gorau i ferched dros 50 a dros 40. Da iawn chi ferched!

Hwyl yr Eisteddfota

Llongyfarchiadau mawr i Carys Briddon, Tre'r-ddôl ar ei llwyddiant diweddar mewn nifer o eisteddfodau lleol. Bu'n brysur yn ysgrifennu gan gipio llu o wobrau yn cynnwys ennill ar gystadleuaeth yr Erthygl yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhynoch, ar Gerdd ar fydr ag odl ac Ysgrif neu Draethawd yn Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen, ar Frawddeg o'r gair "promenâd" yn Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth ac ar gystadleuaeth y frawddeg yn Eisteddfod Swyddffynnon.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i Michelle Walton, The Wildfowler, Tre'r Ddôl a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar ddechrau mis Mehefin.

Llwyddiant plant

Llongyfarchiadau mawr i Miriam Llwyd Davies ar gael dy ddewis i ymuno gyda chôr Only Kids Aloud ar gyfer yr haf. Da iawn ti Miri.

Llongyfarchiadau mawr i Hopcyn Rhys Cosson hefyd am fod ei adolygiad o lyfr 'Dilyn Caradog' wedi ei gyhoeddi yn nghylchgrawn Golwg yn ddiweddar. Ardderchog.

Y Gog

Clywodd Dick Squires, Pandy, Ffwrnais, y gog yn canu'n braf ar y Foel ar yr 20fed o Ebrill.

'Roedd ein hynafiaid yn credu yn gryf pan ddeuai'r gog, byddai pawb yn teimlo'n well. Cewn ni weld!

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Cen a Marilyn Evans, Tycwm, Eglwysfach, ar farwolaeth mam Marilyn, sef Mrs Laura Anne Hughes, gynt o Maesyrfaon, Aberystwyth. Am y saith mlynedd diwethaf cafodd ofal tyner yng nghartref Hafan y Waun. 'Roedd wedi cyrraedd yr oedran teg o 104.

Llwyddiant Awdur Lleol

Llongyfarchiadau mawr i Martin Nelves, Tre'r Ddôl ar gyhoeddi ei nofel gyntaf The Blazing Stream o dan yr enw M. A. Mason. Mae'r gyfrol ffuglen Wyddoniaeth gyffrous hon yn dwyn ysbrydoliaeth o fytholeg Gymreig gan gyfeirio at Gwydion a Llew, dau o gymeriadau amlycaf pedwaredd gainc y Mabinogi, Math fab Mathonwy. Dyma'r gyntaf o gyfres o dair a deallwn bod Martin yn brysur yn ysgrifennu'r ail lyfr yn y gyfres ar hyn o bryd. Pob lwc ar y sgwennu!

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



Priodas



Llongyfarchiadau i Alex a Paul Evans ar eu priodas ar ddydd Gwener, 9 Mawrth yn Eglwys Sant Michael, Eglwysfach. Mae Alex yn wreiddiol o Ffwrnais, ond bellach wedi ymgartrefu gyda'u gŵr a'u mab bach Iestyn ym Mhennal.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Daeth y tymor i ben am eleni ar brynhawn Mawrth, 10 Ebrill, pan aeth yr aelodau i fwynhau te prynhawn yn Libanus 1877, Borth.

Llwyddiant i Gwmni Doli Micstiys



Aelodau Doli Micstiys gyda buddugwyr eraill yr ŵyl a'r beirniad Catrin Jones Hughes

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau cwmni drama'r Doli Micstiys ar gipio'r ail wobwr yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ddiwedd mis Ebrill. Camp a hanner i griw ifanc yn cystadlu yn erbyn cwmnïau profiadol ac actorion tipyn hŷn! Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan y beirniad Catrin Jones Hughes a nifer o'r cast yn y ras am wobwr actor gorau'r ŵyl.

Ysgol Tal-y-bont



Newyddion Staffio



Cwmni Pypedau Vagabondi



Gwibdaith i'r môr



Sustrans Cymru



Achubwyr Bywyd

Ysgol Tal-y-bont

Newyddion Staffio

Gyda siom y derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Miss Ruth yn ddiweddar. Mae hi wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd a gwaith yr ysgol ers deng mlynedd ac wedi meithrin llawer iawn o blant i wella eu medrau sillafu, darllen ac ysgrifennu. Hoffwn ddiolch o galon iddi am ei gwaith yma dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd yn Y Lolfa gan obeithio'n fawr y byddwn yn ei gweld yn cefnogi digwyddiadau'r ysgol yn y dyfodol. Pob hwyl Miss Ruth.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i longyfarch Miss Sionna ar enedigaeth ei merch fach Luna Grace dros y Pasg. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Cwmni Pypedau Vagabondi

Daeth Cwmni Vagabondi atom rai blynyddoedd yn ôl i weithio ar brosiect Cymerau ac roedd hi'n hyfryd i'w croesawu nol i'r ysgol yn ddiweddar i weithio gyda phlant y Cyfnod Sylfaen ar themâu'r 'Môr'. Cafodd y plant lawer o brofiadau gwerthfawr yn creu pypedau gyda Jo ac yn animeiddio gyda Jim. Roedd y plant wrth eu boddau yn gadael i'w dychymyg greu sefyllfaoedd difyr a doniol. Ar ddiwedd y dydd daeth criw o rieni atom a bu'r plant yn eu dysgu nhw sut i greu pypedau a sut i animeiddio gyda chlai. Diolch o galon i bawb oedd yn medru cefnogi a diolch yn fawr i'r staff am drefnu'r digwyddiad.

Gwibdaith i'r môr

Yn ystod y mis cafodd plant y Cyfnod Sylfaen fodd i fyw ar lan y môr yn Borth. Yn ogystal â manteisio ar y tywydd sych i adeiladu a chreu gan ddefnyddio cerrig, broc môr a gwymon, roedd cyfle hefyd i astudio a dysgu am natur yn y pyllau dŵr. Diolch yn fawr hefyd i griw'r bad achub yn Borth am drafod eu gwaith pwysig gyda ni ac am ddangos y cwch a'r offer. Diwrnod gwyllt!

Sustrans Cymru

Mae diwedd Ebrill a dechrau Mai wedi ei glustnodi fel cyfnod i annog plant, rhieni a staff ysgolion ar draws gwledydd Prydain i seiclo neu i sgwtera i'r ysgol. Dyma'r ail flwyddyn i ni fod yn rhan o'r ymgyrch 'Big Pedal' ac roedd hi'n wych i gael cymaint o gefnogaeth gan blant ac oedolion yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ei gosod mewn categori arbennig ac rydym yn 'cystadlu' yn erbyn ysgolion eraill i weld pa ysgol sydd fwyaf heini a 'gwyrrdd'. Hoffwn ddiolch yn fawr i blant, rhieni a staff yr ysgol am eich ymdrech wych dros y pythefnos diwethaf.

Fel rhan o'n gweithgareddau gyda Sustrans Cymru, enillodd yr ysgol ddau sgwter i'w defnyddio gan y plant. Dymuniad y Cyngor Ysgol oedd y dylai enw pob disgybl sydd wedi gwneud rhywbeth arbennig o dda gael ei roi mewn bocs ac y byddai un plentyn o Gyfnod Allweddol 2 ac un plentyn o'r Cyfnod Sylfaen yn cael defnyddio'r sgwter adre am wythnos. Felly, llongyfarchiadau mawr i sêr y sgwteri mis Ebrill sef Osian, Violet, Caoimhe, Charlie, Carys ac Edith.

Achubwyr Bywyd

Roedd hi'n bleser gael croesawu Sara a Jac i'r ysgol yn ddiweddar i sôn am eu gwaith fel achubwyr bywyd lan y môr. Roedd y plant wrth eu boddau'n cael helpu'r ddau i drosglwyddo'r negeseuon pwysig am sut i gadw'n ddiogel ar y traeth ac yn y môr. Gobeithio nawr y cawn ni ddigonedd o dywydd da er mwyn cael mwynhau ar y traethau hyfryd sydd gyda ni'n lleol.

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Yr Heriol, Y Doniol a'r Dychanol

Daeth Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion i ben ar nos Iau 3 Mai yn Neuadd Goffa Tal-y-bont gyda gwledd o ddramâu amrywiol - o'r heriol i'r doniol i'r dychanol.

Dechreuwyd y noson gyda pherfformiad caboledig gan Gwmni Doli Micstiyrs a oedd yn cynnwys disgyblion ysgol yn eu harddegau, sawl un ohonynt yn gyfarwydd iawn i ni yn ardal Papur Pawb. Roedd y ddrama *Tu hunt i bob Gofid*, a luniwyd a chyfarwyddwyd yn ddyfeisgar gan Sion Pennant, yn ymwneud â bwlio a phroblemau iechyd meddwl ymhlith disgyblion ysgol. O ystyried y testun dyrys, cafwyd perfformiadau graenus a chredadwy gan yr actorion ac yn arbennig gan y prif gymeriadau Heledd Davies, Tal-y-bont, Oisín Lludd Pennant, Bont-goch a Glain Llwyd Davies, Llandre.

Drama gwbl wahanol a berfformiwyd gan Gwmni Licris Olsorts, sef *Y Faing*, drama gomedi a gyfansoddwyd gan Emyr Edwards. Roedd digon o chwerthin o'r gynulleidfa wrth i ŵr a gwraig, Les (Glyn Jones) a Doris (Rhian Evans), gwmpo mas wrth eistedd ar faing mewn parc. Daw tro ar fyd gydag ymddangosiad Jim (Steffan Nutting) sy'n ymsechu yn Doris tra bod Les yn cysgu. Roedd sawl tro yn y gynffon a llwyddodd yr actorion i gynnal y cyfan yn greffus iawn.

Un o hoff eiriau'r diweddar Dr John Davies oedd 'hilariws' a dyma a brofwyd yn nhrydedd ddrama'r noson sef *Donald Bricit a Stryd y Domen* a gyflwynwyd gan Gwmni'r Morlan. Anterliwt gyfoes a luniwyd gan dîm o feirdd lleol oedd hon, yn dilyn patrwm y dramâu mydryddol a oedd yn boblogaidd iawn yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif, ond yn sicr y tro hwn wedi'i lleoli yn yr unfed ganrif ar hugain. Cafodd brif ffigyrau gwleidyddol y dydd eu dychanu a'u bychanu gan gynnwys Arlywydd America a Phrif Weinidogion Prydain, yr Alban a Chymru. Ymhlith y sêr yn y cast oedd dau o Dal-y-bont, sef Phil Davies (Jeremy Corbyn) a Geraint Evans (Carwyn Jones).

Rhaid diolch i Sion Pennant a'i griw am drefnu'r Wyl ac am gynnal yr hen draddodiad o actio llwyfan yn yr ardal hon.

GJ

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg yn dilyn y gwasanaeth ar 16 Ebrill.

Dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig y Ficer, Y Parchg Ganon Andrew Loat. Diolchodd i aelodau Elerch am eu gwasanaeth a'u cefnogaeth i'r achos. Cofiwyd yn arbennig am Y Parchg Lyn Lewis Dafis, a dymunwyd adferiad llwyr a buan iddo ar ôl ei salwch. Derbyniodd Emyr Davies wahoddiad i barhau am dymor pellach fel warden y Ficer, ac ail-etholwyd Dewi Evans yn warden y bobl. Diolchwyd iddynt am eu gwasanaeth effeithiol. Ail-etholwyd Richard Huws fel ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol ac Emyr Davies fel trysorydd.

Ar ddydd Sul 29 Ebrill cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog unedig o hwylol weddi dan arweiniad y ficer. Darllenwyd y llith Saesneg gan Glyn Collins a'r llith Gymraeg gan Richard Huws. Mrs Elisabeth James oedd yr organydd.

Edrychwn ymalen at ein noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân a gynhelir eleni ar ddiwrnod St. Pedr, 29 Mehefin. Gwahoddwyd Bois y Rhedyn ac artistiaid lleol i'n diddanu, a derbyniodd John ac Eirwen Hughes, Pencwm, wahoddiad i lywyddu.

Eleni fydd 150 mlwyddiant yr Eglwys, ac fel rhan o'r dathliadau cadarnhawyd y byddai'r Gwir Barchedig Andy John, Esgob Bangor, yn traddodi'r bregeth yn ein gwasanaeth diolchgarwch ar ddydd Sul, 7 Hydref.



Bois y Rhedyn

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Goleuadau Stryd – Maes y Deri

Dros flwyddyn yn ôl bellach, fe nodwyd consyrn trigolion Maes y Deri ynghylch y diffyg golau ar y llwybr troed rhwng yr ystâd a'r Cae Bach. Yn dilyn cais y Cyngor Cymuned i'r Cyngor Sir, adroddwyd y newyddion da bod y golau wedi cael ei symud yn ystod mis Ebrill.

Materion Amrywiol a godwyd ag adran Gwasanaethau Technegol, Cyngor Sir Ceredigion

Adroddodd y Clerc iddi ofyn am ddiweddariad i amryw o faterion a adroddwyd i adran Gwasanaethau Technegol, Cyngor Sir Ceredigion, yn bennaf yn ymwneud â chyflwr y ffyrdd. Nid oedd diweddariad i ddim un o'r 11 mater. Gan hyn, fe gynigodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn gysylltu â phennaeth yr adran i ofyn a allai gwrdd ag aelodau o'r Cyngor Cymuned i archwilio'r safleoedd er mwyn dod a datrysiaid i'r materion.

Cyfarfod Blynyddol, 2018

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor nos Lun, 21 Mai, yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Gohebiaeth: Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Polisi Cynllunio Cymru

Derbyniwyd hysbys fod Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Polisi Cynllunio Cymru. Ar hyn o bryd, maent yn ymgynghori ar bennod y fersiwn ddiwygiedig o bolisi cynllunio'r amgylchedd hanesyddol. I ddarllen y ddogfennaeth ac ymateb i'r ymgynghoriad, ewch i <https://beta.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru-argraffiad-10> Y ddyddiad cau yw 18 Mai, 2018.

Gohebiaeth: Bwrdd Iechyd Hywel Dda – Digwyddiadau Galw Heibio

Derbyniwyd hysbys fod Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi lansio "Hywel Dda – Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd" ar 19 Ebrill, ac yn bwriadu ymgynghori â'r cyhoedd dros y 12 wythnos. Ei nod yw gwella darpariaeth iechyd a gofal yn lleol, ac maent am gwrdd â'r cyhoedd er mwyn derbyn adborth ar eu cynigion. Cynhelir sesiwn galw heibio ar 18 Mai, rhwng 14:00 a 19:00, yng Nghanolfan y Morlan, Aberystwyth.

Tafarndai Ysgubor-y-coed

Mewn rhifynnau blaenorol o *Bapur Pawb* adroddwyd ychydig o hanes tafarndai plwyf Llangynfelyn, yn bennaf wedi'i seilio ar y wefan gampus a luniwyd gan Nigel Callaghan, Taliesin, o'r enw *Peint o hanes, plis* (www.pint-of-history.wales).

Does dim cyfeiriad ar y wefan at dafarn wedi'i lleoli yn Ysgubor-y-coed, gan awgrymu mai dirwestwyr pybyr oedd yn byw yno yn yr oes o'r blaen. Mae hanesion eraill am yr ardal, serch hynny, yn awgrymu'n wahanol! Fodd bynnag, roedd 'na dafarn neu dŷ cwrw (*alehouse*) o ryw fath yn Eglwys-fach yn ystod blynyddoedd cynnar y 19eg ganrif, er na wyddom beth oedd ei henw na'i union leoliad.

Yn y cyfnod hwnnw, roedd yn ofynnol i bob deiliad gwesty neu dafarn i drefnu ymrwymiad (*recognizance*), fel arfer gwerth £10, gan ymrwmo i gadw tŷ trefnus neu fforffedu'r swm. Roedd yr ymrwymiad i bob pwrpas yn drwydded a llofnodwyd y ddogfen gan ddau ynad. Mae'r ddogfen yn cynnwys enwau'r trwyddedai a pherson(au) arall a weithredai fel gwarantwr (hefyd mewn swm o £10).

Mae nifer o'r dogfennau ymrwmo hyn ar gyfer Ceredigion i'w gweld ymhlich cofnodion y cyfreithwyr Roberts & Evans yn Archifdy Ceredigion (RE/PQ/5/1). Ceir dogfennau am nifer o dafarndai'r sir, gan gynnwys y *Plough and Harrow*, *The Hope* a'r *Three Jolly Sailors*, Aberystwyth.

Ceir dwy ddogfen sy'n berthnasol i Ysgubor-y-coed. Ar 16 Medi 1803 rhoddwyd caniatâd gan ynadon i Hugh Jones, Sguborycoed, i werthu cwrw yn ei gartref yn y plwyf, gyda William Williams a David Oliver yn gweithredu fel gwarantwyr.

Ni cheir rhagor o fanylion ynglŷn â lleoliad cartref Hugh Jones ond pan fu farw yntau yn 82 mlwydd oed yn 1847, roedd yn byw yn Ynys Edwin. Roedd pedair annedd yn Ynys Edwin yn y cyfnod hwnnw ond mae'n debygol mai byw mewn man arall oedd Hugh Jones yn 1803 gan y byddai tŷ cwrw neu dafarn wedi'i leoli ar y ffordd fawr rhwng Machynlleth ac Aberystwyth, yn hytrach nag ar ffordd gefn.

Yn 1820 cofnodir i William Harry o Eglwys-fach 'victualler' gynnig yn llwyddiannus am ymrwymiad i gadw tafarn ond ni wyddom yn lle yn union roedd ei gartref. Roedd yntau'n byw yn Banc-y-llan yn ôl Cyfrifiad 1841 ond roedd dros ugain o dai yn Eglwys-fach gyda'r un cyfeiriad. Gwehydd 75 mlwydd oed ydoedd ar y pryd hwnnw ac nid tafarnwr.

Mae'n bosibl mai yn yr un lleoliad oedd tŷ cwrw Hugh Jones a William Harry ac mae'n drueni na wyddom pa enw, os o gwbl, a roddid ar y lle.

GJ

**Bistro
Gannets**



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**



**Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim*

**James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111**



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



MAI

Mae'r haf ar ei ffordd! Fel mae bylbiau'r gwanwyn yn darford mae'r borderi yn dechrau tyfu o ddifri. Gallwch ddechrau plannu hadau yn syth i'r ardd ac o ganol y mis ymlaen gallwch blannu'r blodau blwyddol. [Er bod rhai o'n garddwyr hŷn wedi gweld barrug yn Ardudwy yn hwyr ym mis Mai.]

Gellir cymryd toriadau oddi ar goed meddal. Mi fydd angen torri'r lawnt yn rheolaidd rwan.

Tasgau

1. Gwylwch rhag nosweithiau oer, barugog. Mi fydd angen amddiffyn planhigion nad ydyn nhw wedi arfer â bod allan.
2. Mae angen priddo'r tatws wrth iddyn nhw dyfu. Os oes rhai dros ben, mae'n hen bryd eu plannu.
3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis.
4. Ystyriwch ddulliau o gasglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr. Mae dŵr glaw yn fwy bendithiol i blanhigion ac mae'n rhad!
5. Dylai'r hof fod yn brysur iawn y mis hwn. Mae'n talu ar ei ganfed i'w ddefnyddio'n aml.
6. Agorwch ddrws a ffenestri'r tŷ gwydr ar ddiwrnod cynnes.
7. Torrwch y lawnt bob wythnos.
8. Cyn i chi dorri gwrychoedd, archwiliwch nhw yn ofalus rhag ofn bod adar yn nythu ynddyn nhw.
9. Gallwch godi'r cennin Pedr a bylbiau eraill y gwanwyn - a rhannu clystyrau mawr ohonyn nhw.

Mae'r tymor plannu yn ei anterth. Gallwch barhau i blannu bron bob llysieuyn.

Tatws: Rydan ni wedi plannu'r tatws cynnar 'Rocket' a 'Swift' ac wedi dewis 'Estima', 'Cara' a 'Desiree' fel tatws diweddar. Plannwyd y 'Rocket' mewn mawn yn y tŷ gwydr ar Chwefror 21 a'u symud nhw wedyn i 14 o fwcadi mawr efo dwy daten ym mhob un. Byddan nhw'n barod i'w bwyta erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn.

Moron: Yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, rydan ni wedi arbrofi efo bob math o foron. Erbyn hyn tueddwn i gadw at 'Nantes'. Dydy o ddim yn foryn rhy fawr, does dim canol rhy fawr iddo, mae'r blas yn wych ac mae'n cadw'n dda.

Nionod: 'Stuttgarter' a 'Kelsae' yw'r dewis. Fe gadwodd rhain tan fis Ebrill eleni. Mae'r blas yn dda a dydyn nhw ddim yn tyfu'n rhy fawr.

Ffa: 'Aquadulce' blannwyd eleni.

Pys: Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor! Yr hen ffefrynnau sydd acw, sef 'Kelvedon Wonder' ac 'Onward'.

Ffa Ffrengig: Er mwyn gwneud y gorau o'r lle, rydan ni'n tyfu 'Cobra' sy'n dringo'n uchel.

Cennin: 'Musselburgh' yw'r dewis. Dydy hi ddim yn tyfu'n rhy fawr ond mae hi'n flasus. Mae hefyd yn cadw'n dda rhag unrhyw bla.

Betys: Mae 'Boltardy' yn ddiguro. Nid yw'n rhedeg i had yn hawdd. Rydan ni hefyd wedi plannu betys hir eleni - 'Cylindra'.

Ffa Dringo: 'Enorma' ddewiswyd eleni ond bu bron i ni fynd am 'Prizewinner'. Ffa hirion, blasus heb lawer o 'linyn'.

Bresych: Dwy hen ffefryn, 'Primo' a 'Greyhound' sydd acw; maen nhw'n ffefrynnau ers tro.

Letys: 'All the Year Round'.

Tomatos: Cefais gasgliad amrywiol gan gyfaill y llynedd ac fe gafwyd cnwd ardderchog. Eleni mae o wedi rhoi 'Money Maker', 'Shirley', 'Ailsa Craig', 'Alicante', 'Gardener's Delight' [un fach goch], a 'Sungold' [un fach oren - mae'n felys iawn] i mi. Roedd ganddo fymryn dros ben ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gair i gall!

(drwy garedigrwydd Llais Ardudwy)

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Cylch Meithrin Tal-y-bont

A'r gwanwyn wedi cyrraedd o'r diwedd, mae plant y Cylch Meithrin wedi bod yn dysgu am y tywydd dros yr wythnosau diwethaf. Byddant wedi gweld digon o wynt a glaw, niwl ac oerfel. Ond daeth tro ar fyd a dyna braf yw gweld heulwen a chynhesrwydd, a'r cynefin yn glasu ac yn blodeuo ar frys.

A gyda hynny mewn golwg, a'r cyfle i dreulio mwy o amser yn yr ardal allanol, mae cais gan bwyllgor y Cylch am offer (mewn cyflwr da) ar gyfer y pwll tywod, fel bwcedi a rhofiau, rhacaeau ac ati. Byddai croeso mawr yn ogystal i unrhyw feiciau balans (beiciau bach heb bedalau). Yn anffodus bu rhywrai yn ardal allanol y Cylch yn ystod y gwyliau Pasg, a difrodi'r offer oedd yno.

Anfonwn ein llongyfarchiadau gwresog iawn at Lynwen James, un o gyd-arweinyddion y Cylch, ar enedigaeth Jacob Ellis - yn frawd bach i Evan a Ceiden. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd. A diolchwn yn fawr iawn i Karen Roberts am gymryd yr awennau mor fedrus a chadarn yn ystod absenoldeb Lynwen. Mawr iawn yw ein diolch i'r staff ymroddedig.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Cafwyd noson ddiffr ar nos Lun, 16 Ebrill, pan groesawyd yr awdures, Jane Blank, i'r cyfarfod. Bu'n sôn sut yr aeth ati i ysgrifennu ei hail nofel, *Shadow of Nanteos*, gan sôn am rai o'r cymeriadau lliwgar a fu'n byw yn y Plas ers talwm. Cafodd ei hysgogi i ysgrifennu'r nofel ar ôl ymweld â'r Plas i fwynhau te prynhawn yng nghwmni ei theulu pan yn blentyn. Ar hyn o bryd mae wrthi yn ysgrifennu ei thrydedd nofel, sy'n ddilyniant i stori Nanteos. Roedd pawb wedi mwynhau ei chyflwyniad yn fawr iawn, ac roedd y noson yng ngofal Carys Briddon ac Ann Humphreys.

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar Welsh early years specialists

Sgiliau Newydd, Cyfle Newydd

CWRS NEWYDD: Medi 2018 - Awst 2019

Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?
Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn rhad ac am ddim mewn lleoliad blynyddoedd cynnar

Dyddiad cau: 01/06/2018

Cyfluoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

01970 639 601
www.meithrin.cymru/lefel3
www.twitter.com/dipl3gofalplant
lefel3@meithrin.cymru

#MeithrinMiliwn

Teyrngedau

Teyrnged i Dilys Morgan

Doedd y newyddion trist a ledaenwyd drwy'r ardal am farwolaeth Dilys Alltgoch fore Sadwrn Ebrill y 7fed ddim yn syndod, gan y gwyddem am natur yr afiechyd creulon a'i goddiweddodd am fisoedd lawer.

Cafodd ei geni yn Llwyn-ysguborwen, y ferch hynaf o ddwy, i Rita a John Jenkins, amaethwyr fel canran helaeth o bobol yr ardal, yn 1945. Ganwyd ei chwaer Glenys ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach.

Yn wahanol i'r hyn oedd yn gyffredin i blant Parsel Henllys, sef mynychu Ysgol Tal-y-bont, roedd tynfa i Dilys tuag at Ysgol Llangynfelyn yn Nhaliesin, gan fod chwaer ei mam, Anti Dorothy yn athrawes yno. Aeth ymlaen o Daliesin i Ysgol Ramadeg Ardwyn yn Aberystwyth, ac oddi yno i Goleg y Normal Bangor i astudio "Gwyddor Ty", a hi mae'n debyg oedd y gyntaf i dderbyn tystysgrif yn y Gymraeg yn y pwnc hwn.

Ar ôl diwedd ei chwrs, aeth ymlaen i gael swydd yn Ysgol Eglwysig "Lee Mason" yn Birmingham, a hynny o gofio bod swyddi yn y pwnc yng Nghymru ar y pryd, yn amhosib bron eu cael.

Priododd â David, Alltgoch yn 1969 gan ddod o hyd i gariad a chymar oes o fewn tri lled cae o'i chartref genedigol. Roedd bod yn ddiwastraff ac yn drefnus yn rhan o'i natur erioed. Cofiaf y diwrnod priodas fel 'tae ond ddod, ac ar ddiwedd y dydd y Mini bach coch efo'r ddau yn diflannu dros y gorwel am yr Iwerddon am bythefnos o "fis mêl". Pythefnos i'w gofio yn naturiol, ond yn ôl David, bu i helynt mawr Iwerddon dorri allan bron yn syth ar ôl hynny.

Gwnaeth y ddau eu cartref cyntaf yn Mhentrebach a bu'r cyfnod hwnnw yn un dedwydd iawn. Unwaith eto mae'r cyfnod hwn i mi yn bersonol, yn un o'r rhai hapusaf, cydgyfarfod am swper, ac yna chwarae cardiau a "Monopoly" hyd berfeddion nos, y pedwar ohonom. Cyfnod bythgofiadwy. Roedd "Dil" yn y cyfnod hwn â swydd efo'r Weinyddiaeth Amaeth ym Mhlascrug.

Yna gyda geni Dylan a Dwynwen, bu'n gyfnod prysur ar yr aelwyd ym Mhentrebach gan dreulio deunaw mlynedd yno. Cyn symud wedyn i Alltgoch yn 1988, a bu Dilys yn naturiol yn amaethu ar hyd ei hoes.

Ond nid amaethu yn unig, roedd gweithgaredd ac ynni y wraig feistrolgar hon yn ddifino. Bu'n ysgrifenyddes Sioe Llangynfelyn am bymtheg mlynedd ac yna yn gofalu am Babell Sioe Tal-y-bont am bedair mlynedd ar bymtheg arall. Rhwng y ddwy sioe, pedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd o lafur cariad.

Unwaith eto yn 1999, daeth newid sylweddol i'w bywydau, tra ar drip a drefnwyd gan Undeb yr Amaethwyr i Ganada. Gyda David a Dilys yn bresennol ar y trip hwnnw, ymwelsant â "marchnad ffermwyr" a ysbrydolodd Dil yn enwedig, i gychwyn un gyffelyb yn Aberystwyth. Hi yn bennaf a fu'n gyfrifol, efo ychydig eraill, am gychwyn beth sydd bellach yn ran o hanes. Bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol a chegin Alltgoch yn rhan bwysig o'r fenter honno gan gyfrannu at yr economi leol ac hefyd y fusnes deuluol.

Os nad yw'r hyn rwyf wedi ei nodi eisoes yn ddigon, bu'n "brif stiward" yn ardan y crefftau yn y Sioe Frenhinol am ddeng mlynedd ar hugain ac fe'i hanrhydeddwyd y llynedd efo thystysgrif "Aelod Anrhydeddus am Oes", anrhydedd a roddodd yn naturiol bleser a boddhad mawr iddi.



Un o'i sgiliau pennaf, nad wyf eto wedi sôn amdano oedd ei dawn anfesuradwy efo nodwydd ac edau, fe fyddwn yn tybio mae "brodwaith" yw'r disgrifiad cywir ohono. Roedd ei dawn tuag at y grefft hon yn anhygoel, mae yna gampweithiau yn hongian ar y muriau yn Alltgoch a llaweroedd o lefydd eraill hefyd. Mae yna rai yma ym Mhenywn fel anrhegion adeg priodas a genedigaethau'r plant ac achlysuron eraill hefyd. Doedd y bysedd bach byth yn stopio, roedd y campweithiau perffaith yma yn dod allan fel o ffatri ddiddiwedd. Bu o dan Cyngor Ceredigion yn rhoi Cyrsiau Hyfforddi i oedolion yn y maes hwn yn ngogledd Sir Aberteifi a de Maldwyn hefyd.

Wrth ddod a'r deyrnged fechan hon i'w therfyn mae'n anodd gwneud cyfiawnder a un a roddodd gymaint i'w hardal ac i'w chymuned. Yr ydym fel ffrindiau a chymdogion yn cydymdeimlo â David, Dylan a Dwynwen a'r holl deulu yn eu profedigaeth, gan obeithio y bydd i'r pwysau enfawr y maent yn eu gario ar hyn o bryd ysgafnhau efo ymadawiad amser. Roedd y ffaith nad oedd yna yr un sedd wag ym Methel ddiwrnod yr angladd yn dweud y cyfan.

Mae englyn Y Prifardd Ceri Wyn Jones amdani hefyd yn dweud yr un peth.

Ar sampler y cof tyneraf, yn gain
yn Alltgoch y gaeaf,
bydd pwythau ei hadau'n haf
a'i gwynio'n gynhaef.

Bob Williams

Teyrnged i Glyn Jones

Trist yw cyfnodi marwolaeth Glyn Jones, gynt o Fferm Caerhedyn, yng nghwm prydferth Llyfnant, Glandyfi.

Yn fab i'r diweddar Eunice Jones, cafodd Glyn ei fagu gan ei Famgu a'i Dadcu, ac wedyn gan ei Ewythr a'i Fodryb, Alun a Minnie Jones. Talodd Glyn y pwyth yn ôl yn y diwedd trwy ofalu yn dyner amdanynt hwy yn ei henaint. Mab ei filltir sgwar oedd Glyn, yn gymeriad tawel, a phob amser i'w weld yn fodlon ei fyd.

Mynychodd Ysgol Gynradd Derwenlas, ac Ysgol Uwchradd Machynlleth.

Treuliodd ei flynyddoedd diwethaf yng Nghartref Tregerddan, ac fe ddaeth y diwedd yn ddisymwyth ar y 1af o Ebrill, ac yntau yn 78 mlwydd oed.

Mae'n drist meddwl fod drws croesawgar Caerhedyn bellach wedi ei gloi, ar ol blynyddoedd o fwrlwm ffermio, a chadw dieithriaid yn ystod yr haf, rhai yn dal i ymweld a Glyn hyd y diwedd.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDSODDWR
IN PEOPLE | MERN POBL

Ffurio Gofalaeth Newydd



Phil Davies (Ysgrifennydd Bethel Tal-y-bont) yn cyflwyno tysteb i'r Parch Richard Lewis ar achlysur ei ymddeoliad.

Mewn Cwrdd Eglwys a gynhaliwyd fore Sul, 22 Ebrill cytunodd aelodau Bethel, Tal-y-bont yn ddiwrthwynebiad i ffurfio Gofalaeth newydd gyda Seion, Aberystwyth. O ganlyniad i'r penderfyniad aethpwyd ati i hysbysebu am Weinidog Llawn Amser i Wasanaethu'r Ofalaeth.

Unwaith y daw'r drefn newydd i rym rhagwelir y bydd y gweinidog a benodir yn cynnal oedfa gymun ar yr ail ddydd Sul o bob mis yn Nhal-y-bont. Bydd y patrwm newydd yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol sy'n golygu y byddwn yn dal i uno â Nasareth unwaith y mis, yn cynnal Oedfa Deuluol ar y trydydd Sul ac yn derbyn gwasanaeth gan Geraint Evans ar y pedwerydd Sul. Mae swyddogion Bethel yn ddiolchgar iawn i Geraint, i'r Grŵp Gwasanaethau Teuluol, a'n cyfeillion yn Nasareth am bob rhwyddineb wrth hwyluso'r trefniadau hyn.

Daw'r trafodaethau gyda Seion wrth i ofalaeth bresennol gogledd Ceredigion ddod i ben yn sgil ymddeoliad y Parch Richard Lewis. Cafwyd cyfle i gyflwyno tysteb iddo, a blodau i'w briod Mair, mewn gwasanaeth arbennig ddechrau Ebrill.

GOFALAETH NEWYDD

Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont

Yn dilyn bwriad y Parchedigion Andrew Lenny (Seion) a Richard Lewis (Bethel) i ymddeol eleni, wedi blynyddoedd o wasanaeth cydwytbol, mae'r ddwy eglwys annibynnol uchod wedi cytuno i ffurfio gofalaeth newydd o 260 o aelodau.

Mae'r eglwysi yn awyddus i roi galwad i **WEINIDOG AMSER LLAWN** i wasanaethu'r ofalaeth newydd. Bydd yn gyfle i wasanaethu mewn tref Prifysgol sydd hefyd yn gartref i'r Llyfrgell Genedlaethol a sefydliadau pwysig eraill, ac mewn pentref gwledig, bywiog a Chymreig. Rydym yn cynnig cydnabyddiaeth deilwng yn ogystal â'r costau arferol, lwfans tŷ, cyfraniad pensiwn ac ati.

Gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i gysylltu â Leon Gibson, Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol Seion am fwy o fanylion.

Ffôn: **01970 611834** Eboost: **eirian.gibson@btinternet.com**



Plu yn Hedfan yn Sesiwn Nos Wener

Ar ôl sawl cynnig i'w hudo i'n plith, dipyn o sgŵp oedd cael cwmni Plu, y grŵp gwerin cyfoes o Arfon, i'n diddanu yn Sesiwn Nos Wener ym mis Ebrill, gyda chymorth cynllun Noson Allan.

Dwy chwaer, Marged ac Elan a'i brawd Gwilym yw aelodau'r band sy'n cyflwyno caneuon hen a newydd mewn harmonïau gwefreiddiol o dynn a beiddgar.

Roedd y niferoedd a ddaeth ynghyd yn tystio i boblogrwydd Plu gyda'r to iau a'r to hŷn fel eu gilydd ac roedd y Llew Du dan ei sang ar gyfer eu perfformiad. Braff oedd gweld criw o ddysgwyr ac ambell un nad oedd yn medru'r iaith yn mwynhau noson uniaith Gymraeg i'r eitha.

Ar ôl cyflwyniad cymharol dawel a thyner yn ystod y rhan gyntaf, newidiwyd y cywair ar ôl yr egwyl wrth i Gwilym Bowen Rhys gyflwyno nifer o faledi angerddol yn ei ffordd ddihafal, cyn i'w chworiydd ddychwelyd i'r llwyfan i ymuno ag o i gau'r set gyda rhagor o ganeuon swynol.

Mae doniau Plu yn mynd â nhw ymhell ond yn ddi-os, roedd y triawd wedi cael noson i'w chofio yng Ngheredigion gan sylwi ar yr hyn y mae amryw o gerddorion talentog Cymru wedi'i nodi yn Sesiwn Nos Wener Tal-y-bont – y gwrandawriad astud.

Diolch i bawb a ddaeth ynghyd a staff y Llew Du am y bwyd hynod flasus a'r croeso clên fel arfer.

Mae gan Sesiwn Nos Wener arlwy arbennig yn dod i Dal-y-bont dros yr wythnosau nesaf. Ar 22 Mehefin byddwn yn cael y pleser mawr o wahodd Elin Fflur i'n plith i'r Llew Du gyda Alejandro Jones yn dilyn bythefnos yn ddiweddarach ar 6 Gorffennaf yn y Llew Gwyn. Gwledd yr haf yn wir!

Cigydd

Porchell

01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



© CADW Aberystwyth o'r awyr

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Gymdeithas yn Llanfach Taliesin ar 24ain o Ebrill. Ein siaradwraig wadd oedd Judith Alfrey, Pennaeth Adfywio a Chadwraeth gyda CADW, a siaradodd ar "Pensaernïaeth Drefol Ceredigion". Cyfeiriodd at y gwahaniaethau rhwng y trefi canoloesol eu sefydliad, megis Aberystwyth ac Aberteifi, a'r rhai modern, fel Aberaeron a Chei Newydd. Roedd hi'n ddiddorol gweld patrwm yr hen waliau dre Aberystwyth sy'n dal i ddilyn llinell Maes Alffred/Stryd y Popty/Y Ffynnon Haearn/Dan Dre. Difyr hefyd oedd clywed hanes y 'bay windows' yn Aberystwyth. Diolch yn fawr iawn i Judith am sgwrs ddiddorol iawn. Bydd teithiau i Aberystwyth yn beryglus iawn yn y dyfodol, oherwydd byddaf yn cerdded o gwmpas gyda'm mhen yn awyr, gan edrych i fyny ar bensaernïaeth y lloiau uwch!

Ein siaradwr gwadd ar 29ain o Fai yw'r Athro Bob Meyrick, a fydd yn siarad am "Gladys Vasey: Against the Tide". Arlunydd oedd Gladys Vasey, a symudodd i Dalybont yn 1943. 7.30, Llanfach.

Ysgol Penweddig

Ar y 1af o Fai, aeth 90 o ddisgyblion blwyddyn 9 a 10, Ysgol Gyfun Penweddig i Stadiwm y Principality, Caerdydd i gefnogi tîm rygbi dan 15 Ceredigion, yn rownd derfynol Bowlen Laurence Miller. Enillodd Connor Byrne, Tre'r Ddôl y fraint o gael chwarae fel aelod o'r tîm, a chafodd brofiad gwych yn chwarae'n erbyn Rhondda Cynon Taf. Yn anffodus, colli wnaeth y tîm o 7 i 26 ond cafwyd perfformiadau da gan y bechgyn i gyd.



Stondin i godi ymwybyddiaeth am Biosffer Dyfi tu allan i Cletwr, dan arweinyddiaeth Shelagh Hourahane a Charlie Falzon

Cletwr

Mae gweithio a gwirfoddoli (neu siopa a bwyta) yng Nghletwr wastad mor ddiddorol. Bob diwrnod mae rhywbeth newydd i'w weld, digwyddiad newydd i'w brofi a phobl newydd i gŵrdd â nhw. Mae golwg y safle yn newid yn gyflym, diolch i waith caled y tîm garddio, sy'n brysur wrthi'n plannu'r ardd. Bydd golwg brydferth ar y lle yn y misoedd a blynnyddoedd i ddod.

Rhywbeth newydd arall i'w weld yw bocs mawr gwyrdd wrth ymyl y fynedfa. Beth yw e? Bocs gwag ar hyn o bryd, i fod yn onest! Ond, o fewn ychydig wythnosau bydd y teclyn i reoli'r trydan ar gyfer ein Man Llenwi Cerbydau Trydan Cyflym ynddi. Dyma fydd yr unig 'fast charger' (am y tro) rhwng yr A55 a'r M4! Bydd modd i bobl ail-lenwi eu ceir o fewn rhyw 20 munud, amser perffaith am ddishgled a theisen!

Mae ein rhaglen o ddigwyddiadau difyr wedi parhau. Yn ystod y mis diwethaf mae dosbarth "Cymraeg yn y gweithle" wedi cychwyn, ac rydyn ni wedi cael sawl sgwrs ddiddorol ac amrywiol, gan gynnwys Geraint Evans, Talybont, yn siarad am y grefft o ysgrifennu nofelau ditectif, a Bob Shaw o Goed Nanteos ar sut i feithrin coedtir er budd natur a phobl. Mae Tro Côr y Bore Bach dan arweinyddiaeth Caroline de Carle yn dal i fod yn hynod o boblogaidd.

A beth sy'n digwydd yn ystod y mis nesaf? Y peth mwyaf fydd ein PARTI PEN-BLWYDD! Credwch neu beidio, mae Cletwr wedi bodoli fel busnes cymunedol ers pum mlynedd erbyn hyn, ac i ddatlu ein pen-blwydd yn bump oed, rydyn ni'n trefnu parti dau ddiwrnod ar Sad/Sul 12/13eg o Fai. Ar y 12fed bydd bandiau, dawnio gwerin, gweithgareddau, stondinau, gemau a llawer o hwyl drwy'r dydd, o 11yb tan 11yh, ac wedyn ar y dydd Sul, Ffair Gymunedol gyda stondinau bwyd a chrefftau lleol, gweithgareddau i'r plant a llawer mwy. Mynediad am ddim. Dilynwch ni ar Facebook a Thrydar am fwy o fanylion. Dewch yn llw - ac mae fe AM DDIM!

Mae gweddill y mis yn llawn hefyd. Dewch â'ch plant bach i "Amser Stori" 16eg o Fai, 14.15-15.00, cyfle i'r plant clywed straeon yn y Gymraeg. Wedyn ar 18fed o Fai fe fydd Arwyn George, y pensaer a oedd yn gyfrifol am y Cletwr newydd, yn siarad am y prosiect a dangos yr adeilad i bobl. Ac wrth gwrs bydd ein digwyddiadau rheolaidd yn rhedeg fel arfer: Clonc a Gwau pob pnawn dydd Mawrth, 'Walkie Talkies' bore dydd Mawrth a loncian cymdeithasol bore dydd Sul. Cynhelir y sesiwn 'Dal Ati' nesaf, sy'n cynnig cyfle i ddysgwyr godi hyder wrth ddefnyddio'r iaith, ar 19eg o Fai am 11yb.

Heb ymweld â Cletwr ar ei newydd wedd eto? Mae'r tywydd braf ar ei ffordd, felly cyfle perffaith ichi ddod am baned a chacen ar ein byrddau tu allan newydd, a joio'r haul a naws y lle!

Colofn Elin

Heb os, mae cyfleusterau bysys modern sy'n cysylltu cymunedau Ceredigion a'i gilydd, a gydag ardaloedd tu fas i'n sir yn hanfodol. Felly, ar ôl ymgyrch hir, roeddwn yn falch iawn groesawu'r bws T1C ar ei ffurf 'coach' newydd, cyfforddus a diogel.

Mae'r bws nawr hefyd yn gweithredu gwasanaeth llawn 7 diwrnod yr wythnos gyda lleihad yn hyd y daith. Mae e hefyd yn hygyrch ac mae'n bosib defnyddio Cerdyn Teithio Rhatach arni. Mae'r gwasanaeth hefyd am ddim i bawb ar y penwythnos.

Mae ymgyrch Band-eang yn dal i barhau gyda nifer fawr o etholwyr yn methu â chael cysylltiad safonol. Ar hyn o bryd, mae gwefan 'Think Broadband' yn nodi mai dim ond 77.1% o leoliadau yng Ngheredigion sydd â chyswllt band eang 'cyflym iawn'.

Nawr, rwyf wedi llwyddo i gael Julie James AC, y gweinidog sydd yn gyfrifol am gyflwyno Band-eang yng Nghymru, i gytuno i ddod i gyfarfod agored. Cynhelir y cyfarfod ar 26 Ebrill 2018 am 4 y prynhawn yn ystafell gyfarfod Llanina Arms, Llanarth. Fe wnaif adrodd yn ôl i chi yn fy erthygl nesaf.

Mae adolygiad Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi bod o dan sylw yn ddiweddar, gyda chyhoeddiad o'r opsiynau mae'r bwrdd iechyd yn ystyried i'r blynyddoedd sydd i ddod. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yng Ngheredigion wedi brwydro i gadw gwasanaethau ym Mronglais, ac wedi danfon sawl neges i Gaerfyrddin a Chaerdydd, bod ein hysbty ni yn rhan allweddol o rwydwaith ysbytai Cymru. Does dim amheuaeth gen i fod y gwaith caled yma wedi talu ei ffordd.

Mae adolygiad strategol mwyaf diweddar Hywel Dda yn cadarnhau'r angen i gynnal a datblygu gwasanaethau ym Mronglais. Mae e hefyd yn ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau iechyd mewn prif bwyntiau ledled Ceredigion, gyda chanolfannau cymunedol yn Nhregaron, Aberteifi ac Aberaeron, yn ogystal â chanolfan gymunedol yn Aberystwyth. Fe fydd y rhain i gyd yn lleihau pwysau ar Fronglais, ac yn hwyluso profiadau cleifion.

Mae'r cynlluniau hyn yn dangos ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â materion iechyd hirdymor yng Ngheredigion, fodd bynnag, rwy'n awyddus i drafod sut y bydd unrhyw gynigion ar gyfer newid ysbytai yn y de yn effeithio ar wasanaethau i bobl yn nyffryn Teifi. Rhaid ystyried yn ofalus lleoliad unrhyw ysbyty newydd yn yr ardal hon.

Elin Jones AC



Cyfarfod Blynyddol y Gwartheg Duon

Penllanw blwyddyn hynod o brysur i Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Llywydd Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig oedd y Cwrdd Blynyddol a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, yng Nghwesty'r Marine, Aberystwyth. Un o'i ddyletswyddau olaf, oedd cyflwyno adroddiad o weithgareddau'r Gymdeithas dros y flwyddyn, cyn trosglwyddo'r gadwyn a'r Llywyddiaeth i Brian Thomas o Sir Fôn. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, sef Dilwyn Jenkins, Cerrigaranau iddo ac i'r holl swyddogion a'r staff am eu hymroddiad a'u gwasanaeth diflino i'r Gymdeithas.

Gyda'r nos, mwynheuodd pawb ginio cig eidion organig o Fferm Tanyrallt. I ddilyn, cafwyd araith gan Gwilym ar y testun, "A ydym yn gwarchod y winllan a roddwyd i'n gofal, fel y dylem"? Gellir gweld ei araith ar YouTube, teipiwrch 'Araith Gwilym Jenkins' er mwyn iddo ymddangos.

<https://drive.google.com/open?id=1FE56gLOLoyXXjXlJlMj3a8tO75zsVw5Y>

Yn ogystal, dyma oedd digwyddiad olaf Llysgenhades y Gymdeithas, Angharad Davies o Bonterwyd. Bu'n brysur yn gwerthu raffl drwy'r flwyddyn a threfnodd arwerthiant ar y noson. Arwerthwr y noson oedd Geraint Jenkins, Cerrigaranau a lwyddodd i ddenu prisiau da am y nwyddau.

Mae'r Gymdeithas yn agos at galonnau nifer yn yr ardal hon gan fod y fuwch ddu yn draddodiadol, yn rhan bwysig o ffermio yma. Ceir nifer o fuchesau dal yn y cyffuniau yn cynhyrchu cig eidion o'r ansawdd gorau. Gobeithio y gwelwn y fuwch ddu yn parhau i bori ar ffermydd yng ngogledd Ceredigion am flynyddoedd lawer.



Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)
Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

CHWARAEON



Jamie Morgan yn ymosod lawr y dde. Aeth ei ergyd ychydig heibio'r postyn.

Dim Codi Cwpan Eleni

Daeth ymdrech olaf Clwb Pêl-droed Tal-y-bont i ennill cwpan eleni i ben ar ddiwrnod olaf Ebrill. Y gwrthwynebwyr ar feysydd Blaendolau oedd Tregaron yn rownd gynderfynol Cwpan y Cynghrair - y gwpan a enillwyd gan Dal-y-bont y llynedd.

Er bod yr haul yn tywynnu, roedd gwynt oer yn ysgubo ar draws y cae gan achosi problemau i'r timau wrth iddynt geisio rheoli'r bêl. Doedd fawr ynddi yn yr hanner cyntaf a dim goliau, ond wedi'r egwyl fe darodd Tregaron yn gyntaf gyda'r gôl agoriadol. Ond o fewn dim roedd Tal-y-bont yn gyfartal pan fanteisiodd y blaenwr ifanc Osian Thomas ar ei gyfle a llithro'r bêl i gefn y rhwyd. Am gyfnod edrychai'n debygol mai gêm gyfartal fyddai'r canlyniad terfynol ond yn anffodus sgoriodd Tregaron ychydig cyn y diwedd i gipio'r fuddugoliaeth.

Cafwyd ymdrech lew gan Dal-y-bont yn ystod y gêm ond yn y pen draw roedd Tregaron yn well tîm dros y 90 munud ac yn haeddu ennill.

Ar nos Iau 3 Mai chwaraewyd yn erbyn Tregaron unwaith eto, y tro hwn yn y Cynghrair. Gêm gyfartal 3-3 oedd y canlyniad. Wedi hynny, fe aeth bechgyn Tal-y-bont ar benwythnos o 'ymlacio' yn Iwerddon dros Galan Mai. Bydd eu tymor yn dod i ben gyda gêm gynghrair bant yn erbyn Llanilar.

argraffu da
am bris da

ylolfa holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfa.com

Bwyd da... Cwmni da!

Black Lion Hotel

YBlac 01970 832 555
croeso@yblac.co.uk



Yr amddiffynwr Siôn Owen yn penio'r bêl i ffwrdd yn yr hanner cyntaf